Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Porth y Felin
# Ffordd Llanrwst
# Conwy
# LL32 8FZ

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Porth y Felin

Ysgol wirfoddol a reolir yw Ysgol Porth y Felin ac mae wedi'i lleoli yn nhref hanesyddol Conwy. Ysgol cyfrwng Saesneg yw hi, ond mae'n cynnal ethos Cymreig cryf. Mae 334 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, sy'n cynnwys 40 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae tua 18.5% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru, sef 19%. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg gartref, a daw ychydig iawn o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 27% o ddisgyblion, sydd fymryn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Ar hyn o bryd, nid oes datganiad o anghenion addysgol arbennig gan unrhyw ddisgyblion. Mae darpariaeth adnoddau gan yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd hefyd yn gwasanaethu ychydig o ddisgyblion o ysgolion lleol eraill yn y boreau. Penodwyd y pennaeth yn Ebrill 2018, ac ym Mehefin 2011 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae Ysgol Porth Y Felin yn gymuned hapus, ofalgar a diwyd lle mae disgyblion a staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd.  Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da o'u mannau cychwyn yn yr ysgol, a datblygant yn ddysgwyr hyderus a mwyfwy annibynnol.  Mae medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da gan y rhan fwyaf ohonynt ac maent yn cymhwyso'r rhain yn dda.  Mae agwedd gadarnhaol at eu dysgu gan bron pob un o'r disgyblion, beth bynnag yw eu gallu, a dangosant ddyfalbarhad da.  Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cryf gyda'u medrau Cymraeg, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus.  Un nodwedd gref o'r ysgol yw'r ffordd y mae'r disgyblion hŷn yn cynorthwyo ac yn gofalu am eu cyfoedion iau drwy ystod o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda.

Mae athrawon a staff yn cynllunio ystod dda o weithgareddau difyr i'r disgyblion ac yn monitro'u cynnydd yn effeithiol.  Drwy ystod eang o weithdrefnau hunanarfarnu, mae dealltwriaeth glir gan arweinwyr o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu.  Maent yn gweithredu cynlluniau gwella ac yn monitro cynnydd yn llwyddiannus.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella'r cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion drwy ddysgu annibynnol gweithredol yn y cyfnod sylfaen, yn enwedig yn yr ardaloedd awyr agored

A2 Gwella cysondeb wrth gynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd ar y lefel ddisgwyliedig am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ymateb yn gadarnhaol i'w targedau ac mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd da tuag at yr amcanion a amlinellwyd yn eu cynlluniau datblygu unigol. Ar draws yr ystod oedran a gallu, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn hyderus, ac yn gweithio'n ddiwyd mewn gwersi.

Mae medrau siarad a gwrando disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. O'r dechrau, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn bwrpasol. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi barnau'n glir ac yn ateb cwestiynau'n ystyriol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion derbyn yn esbonio sut gwnaethant lwyddo i adeiladu pont a oedd yn ddigon llydan i'r pum hwyaden fynd heibio o dani.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg. Dangosant frwdfrydedd tuag at yr iaith. Mae'r disgyblion ieuengaf yn canu caneuon Cymraeg ac yn dysgu geiriau ac ymadroddion syml yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn cynnal eu cynnydd ar draws cyfnod allweddol 2. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, gall llawer o ddisgyblion mwy abl gynnal sgwrs estynedig â'i gilydd, gyda staff a gydag ymwelwyr. Maent yn darllen gyda hyder a mynegiant, ac yn ysgrifennu'n effeithiol mewn cyd-destunau cyfarwydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau darllen o oedran cynnar. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dysgu geiriau a seiniau yn gyflym, ac yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol. Maent yn mwynhau llyfrau ac wrth eu boddau yn eu rhannu gyda'i gilydd, gan ddod o hyd i wybodaeth i gwblhau tasgau, neu ddysgu storïau newydd. Mae medrau darllen cryf gan y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Maent yn darllen yn hyderus ac yn rhoi ystyriaeth effeithiol i greu argraff wrth ddarllen yn uchel. Maent yn mwynhau trafod hoff awduron a'u hoff arddulliau. Mae gan lawer ohonynt fedrau darllen lefel uwch sydd wedi'u datblygu'n dda, a gallant ddod o hyd i wybodaeth o destun penodol i ateb cwestiynau neu ddatblygu cyflwyniad, er enghraifft wrth ymchwilio i brosiect am fynydd Everest.

Ar draws yr ysgol, mae ysgrifennu disgyblion wedi'i ddatblygu'n dda. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn mwynhau gwneud marciau ac yn dechrau ysgrifennu o oedran cynnar. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth o genres, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i ofalu am eich draig anwes, neu wrth greu stori ddychmygus am y diwrnod yr ymwelodd y plant â'r goedwig hud a'r mynydd blodau eiraog. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o atalnodi a sillafu geiriau cyfarwydd.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n hyderus mewn amrywiaeth o genres. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ysgrifennu ffeil ffeithiau llawn gwybodaeth am Thomas Telford a ddyluniodd pont grog Conwy.

Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ysgrifennu hunangofiant llwyddiannus o safbwynt masnachwr Tuduraidd gan ddangos dealltwriaeth dda o'r cyd-destun hanesyddol.

Mae medrau mathemategol wedi'u datblygu'n dda gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae dealltwriaeth gryf gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r pedair rheol rhif. Er enghraifft, gall disgyblion mwy abl Blwyddyn 2 adio a thynnu rhifau dau ddigid yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall priodweddau amrywiaeth o siapiau dau a thri dimensiwn. Gall y rhan fwyaf ymdrin â data'n effeithiol ac maent yn ei ddefnyddio i lunio siartiau cyfrif a graffiau bar yn gywir wrth ymchwilio i liw llygaid disgyblion yn eu dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 is yn defnyddio'u medrau rhifedd i ddatrys ystod o broblemau a heriau, er enghraifft wrth ymchwilio i a oes gan bobl dalach draed mwy, ac a yw lled eu llaw yn fwy llydan. Mae dealltwriaeth gadarn o ffracsiynau a degolion gan y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 uwch, a gwnânt amcangyfrifon deallus ar sail dysgu blaenorol. Ar draws yr ysgol, fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu nac yn datrys problemau mathemategol mor effeithiol mewn cyd-destunau eraill ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau da mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn anfon neges e-bost yn hyderus ac yn defnyddio ystod o feddalwedd addas. Defnyddir rhaglen baentio gan y rhan fwyaf o ddisgyblion i greu darluniau, er enghraifft yn eu gwaith testun ar fyw'n iach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio safleoedd addas ar y rhyngrwyd yn synhwyrol a hyderus i ddewis gwybodaeth berthnasol, a defnyddiant becynnau cyflwyno amrywiol yn fedrus i gyfleu'u canfyddiadau. Defnyddir technoleg yn dda gan lawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 i reoli modelau sy'n symud wedi'u gwneud o friciau plastig. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn deall mantais cynhyrchu graffiau a siartiau cylch cywir i gofnodi costau amrywiol gweithgareddau hamdden i bobl yng ngogledd Cymru.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar, ac mae ei hethos yn effeithiol o ran helpu disgyblion i ddatblygu'u dealltwriaeth gymdeithasol a moesol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi mewn amgylchedd diogel a gofalgar ac mae hyn, yn ei dro, yn gwella'u hunanhyder ac yn cynorthwyo'u lles. Mae disgyblion yn gofalu am ei gilydd yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r cyfeillion cinio yn darparu cymorth sensitif yn ystod amser cinio ac yn helpu'r disgyblion iau i fwyta'n annibynnol. Un nodwedd gref o'r ysgol yw'r gofal a ddangosir gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 tuag at eu cyfoedion yn y cyfnod sylfaen, yn enwedig pan fyddant yn cydweithio mewn gweithgareddau ar y cyd, fel pobl pasteiod afal gyda'i gilydd. Mae bron yr holl ddisgyblion yn deall sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar y rhyngrwyd ac yn y gymuned ehangach.

Mae dealltwriaeth gryf gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o bwysigrwydd byw'n iach ac yfed dŵr yn rheolaidd. Er enghraifft, mae disgyblion yn elwa o'r ffocws cryf ar becynnau bwyd iach a byrbrydau iach. Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau

cadarnhaol tuag at addysg gorfforol a chadw'n heini. Maent yn gwerthfawrogi gwaith y cenhadon chwaraeon wrth drefnu gweithgareddau fel y gystadleuaeth tennis 'cadw'r bêl i fyny', y mae llawer ohonynt yn ei mwynhau amser egwyl. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau a chlybiau amser cinio ac ar ôl ysgol. Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn cydnabod bod yr ysgol yn eu helpu i wneud penderfyniadau synhwyrol, gwybodus ac i ddatblygu fel unigolion. Maent yn teimlo eu bod yn cael gofal a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn dangos gofal a pharch at ei gilydd, aelodau staff ac ymwelwyr. Mae disgyblion yn siarad yn hyderus am werthoedd ysgol gyfan. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos parch at ei gilydd, yn dangos caredigrwydd tuag at eu cyfoedion, a dyfalbarhad da yn ystod gweithgareddau.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn dangos safon dda o ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Yn ddieithriad, mae ymweliadau oddi ar y safle yn cael eu dilyn gan sylwadau cadarnhaol gan ddarparwyr, gan wneud sylwadau ar ymddygiad da disgyblion, eu cwrteisi a'u parodrwydd i fynd i'r afael â phrofiadau newydd.

Mae ethos dysgu cadarnhaol yn galluogi llawer o ddisgyblion i ddod yn ddysgwyr hunanhyderus ac annibynnol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o, ac yn deall, arwyddocâd arwyddair yr ysgol, sef 'Credu, Parchu, Llwyddo'. Trwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar rai o'r medrau hanfodol ar gyfer dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn sylweddoli pwysigrwydd dyfalbarhau, a bod gwneud camgymeriadau yn rhan naturiol o'r broses ddysgu. Mae'r medrau hyn wedi'u lledaenu i rieni brwdfrydig yn llwyddiannus gan y disgyblion eu hunain yn ystod nosweithiau agored.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd perchnogaeth o reolau'r ysgol sy'n cael eu trafod a'u cytuno ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Mae bron pawb yn gwneud eu gorau glas i gydymffurfio â nhw, ac o ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned weithgar a chynhwysol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion mewn parau a grwpiau. Mae'r rhan fwyaf yn parchu ac yn herio barnau ei gilydd. Mae dealltwriaeth dda gan lawer ohonynt o beth maent yn ei wneud yn dda, a beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn gosod safonau uchel ar gyfer ymddygiad ac ansawdd gwaith. Mae parch rhwng y naill a'r llall ymhlith athrawon a rhwng disgyblion ac oedolion yn nodwedd bwysig o'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd dosbarth. Caiff disgyblion eu hannog i wneud eu gorau ac i ddyfalbarhau mewn awyrgylch tawel, gweithgar. Gwneir defnydd gwerthfawr o staff cymorth gan athrawon ar draws yr ysgol. Mae staff yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Maent yn sensitif i anghenion disgyblion ac mae eu rhyngweithiadau'n adlewyrchu'r gwerth uchel a roddant ar annog lles disgyblion. Mae'r ymagwedd hon yn datblygu hyder y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Mae disgwyliadau gan y rhan fwyaf o athrawon ac maent yn sicrhau rhediad da i'w gwersi. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau'n

dda i ennyn diddordeb disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn gosod senarios heriol go iawn sy'n galluogi disgyblion i ddefnyddio'u gwybodaeth a'u medrau i ddatrys problemau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn cynllunio cinio ysgol nad yw'n costio mwy na £1 i'w gynhyrchu.

Yn y cyfnod sylfaen is, mae staff a disgyblion yn cynllunio ystod werthfawr o weithgareddau dysgu gyda'i gilydd, sy'n datblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion yn yr ystafell ddosbarth a'r awyr agored. Mae staff yn annog disgyblion i wneud dewisiadau ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu. Wedyn maent yn dylunio gweithgareddau sy'n ystyried eu dewisiadau ac yn datblygu'u medrau dysgu annibynnol yn effeithiol. Ym Mlwyddyn 1 a 2, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gweithgareddau llythrennedd a rhifedd dosbarth cyfan yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i ddatblygu a gwella medrau disgyblion trwy brofiadau dysgu annibynnol gweithredol wedi'i ddatblygu gystal, yn enwedig yn yr ystafell ddosbarth awyr agored.

Mae athrawon yn dechrau cynllunio i roi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith yn synhwyrol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddefnyddio'u medrau TGCh i wella'u dysgu mewn cyd-destunau ystyrlon. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau a heriau cyffrous. Mae un enghraifft yn cynnwys disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn cynhyrchu ffilmiau ar Gonwy i'w rhannu gyda disgyblion yn Pittsburgh. Fodd bynnag, nid oes cysondeb ar draws yr ysgol o ran cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw rhai gweithgareddau yn ddigon heriol.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol sy'n cefnogi ac yn gwella'r cwricwlwm yn dda. Er enghraifft, mae athrawon a disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cynllunio taith maes i Foel Wnion ac yn defnyddio gwirfoddolwyr lleol i gyfoethogi'r cwricwlwm trwy addysgu medrau mynydda defnyddiol i'r disgyblion. Mae athrawon yn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu a gwneud dewisiadau ynghylch beth yr hoffent ei ddysgu a sut. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a 4 yn defnyddio'u medrau gwyddoniaeth, technoleg a rhifedd yn effeithiol i adeiladu cwch fel rhan o'u testun ar foroedd a chefnforoedd.

Mae athrawon yn defnyddio technegau holi yn bwrpasol i helpu disgyblion ddeall cysyniadau newydd ac i ddatblygu'u gwybodaeth a'u medrau. Mae adborth llafar yn canolbwyntio'n dda ar sut y gall disgyblion wella eu gwaith, ac mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ymateb er mwyn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad da i wella agweddau penodol ar eu gwaith. Darperir cyfleodd priodol gan staff i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a pherfformiad rhai eraill. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wybod beth maent wedi'i wneud yn dda ac i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella ymhellach.

Mae bron yr holl athrawon a chynorthwywyr addysgu yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd a darparant fodelau rôl da i ddisgyblion o ran defnyddio'r iaith, ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau siarad a gwrando. Ceir ethos Cymreig cryf ac mae'r ddarpariaeth yn annog disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth dda ar gyfer disgyblion i ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae disgyblion yn astudio ac yn gweithio gydag artistiaid o Gymru a staff i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i wrando ar gerddoriaeth Gymreig gyfoes. Mae'r ysgol yn dathlu traddodiadau Cymreig yn dda, er enghraifft, trwy gymryd rhan reolaidd yn Eisteddfod yr Urdd a dathliadau blynyddol Dydd Gŵyl Dewi.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd y gofal ac arweiniad a ddarperir gan yr ysgol yn gyson dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall arwyddair yr ysgol – Credu, Parchu, Llwyddo - ac yn cydymffurfio ag ef. Mae ethos cynhwysol, cadarnhaol yn amlwg drwy'r ysgol gyfan, ac mae'n galluogi bron yr holl ddisgyblion i ffynnu a datblygu hunanhyder, ac i ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

Cynhelir ystod fuddiol o weithdrefnau asesu ac olrhain gan staff sy'n nodi anghenion disgyblion yn ofalus a chywir. O ganlyniad, mae staff yn datblygu ac yn gweithredu rhaglenni effeithiol i lywio'r addysgu a'r cynllunio, sy'n cael eu teilwra'n llwyddiannus i fod yn addas i ddysgu disgyblon. Mae gwybodaeth fanwl gan gynorthwywyr addysgu am dargedau disgyblion ac maent yn cynorthwyo dysgwyr yn gydwybodol. Eir i'r afael ag anghenion emosiynol disgyblion mewn modd sensitif mewn nifer o ffyrdd buddiol, gan gynnwys drwy weithgareddau annog. Cynhelir y sesiynau gwerthfawr, rheolaidd hyn mewn ardal greadigol, gynnes a chroesawgar, a chânt effaith gadarn ar hunan-barch disgyblion. Mae staff yn gweithio'n dda gydag ystod o wasanaethau arbenigol, a defnyddiant eu harbenigedd i hyfforddi staff eraill yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r holl staff a disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi cael hyfforddiant buddiol yn ddiweddar ar ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion dysgu gwahanol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r heriau y mae eu cyfoedion yn eu hwynebu, a phwysigrwydd dangos empathi a dealltwriaeth. Mae arddangosiadau manwl yn atgyfnerthu'r gwaith hwn yn effeithiol.

Mae'r pennaeth wedi meithrin perthnasoedd gweithio a chyfathrebu cryf gyda rhieni drwy amrywiaeth o strategaethau gwahanol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i atgoffa rhieni a rhoi diweddariadau rheolaidd iddynt am gyfarfodydd a gweithgareddau sydd wedi'u trefnu ar galendr yr ysgol. Caiff rhieni lyfrynnau i'w hysbysu am bolisïau gwahanol yr ysgol. Er enghraifft, cafodd taflen ar 'bresenoldeb gwych'; a gafodd dderbyniad da gan nifer o rieni, ei ddosbarthu ar ddechrau'r flwyddyn ysgol i bwysleisio pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn ymweld â'r eglwys leol i gymryd rhan mewn gwasanaethau. Er enghraifft, cynhaliodd y gweinidog lleol wasanaeth ar fedydd lle bu'r disgyblion yn flaenllaw, fel rhan o ddatblygu'r cwricwlwm eang. Caiff gorwelion disgyblion eu hehangu drwy ymweliadau gan bobl o ddiwylliannau gwahanol. Mae hyn yn galluogi bron yr holl ddisgyblion i feithrin cysylltiadau gyda gwledydd a diwylliannau gwahanol i ddathlu nodweddion tebyg a nodweddion gwahanol, ac i ddatblygu goddefgarwch, empathi a dealltwriaeth. Er enghraifft, dysgodd y disgyblion am ddiwylliant Japaneaidd gan eu ffrindiau o Japan, a ymwelodd i gael profiad o ddiwrnod mewn ysgol yng Nghymru. Mae disgyblion yn wrth eu boddau â gweithgareddau fel cymharu castell Conwy â chastell yn Japan.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw ac mae'n gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae rhieni wedi derbyn taflenni ar sut i greu pecynnau bwyd iach ac mae'r 'Clwb BOBs' yn hyrwyddo bwydydd iach fel salad ffrwythau ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen.

Darperir cyfleoedd gwerthfawr gan staff i lawer o ddisgyblion hŷn i ddatblygu medrau entrepreneuraidd. Un enghraifft effeithiol yw'r her £5 sy'n cynnwys disgyblion yn cynllunio gweithgaredd gwneud elw i adeiladu ar eu buddsoddiad cychwynnol. Gwneir cyfraniad gwerthfawr gan y cyngor ysgol a'i is-grwpiau tuag at ddatblygu gwerthoedd moesol a chymdeithasol y disgyblion, ac mae'n cynnig awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi chwarae rhan allweddol yn statws Masnach Deg yr ysgol. Mae aelodau'r grŵp yn cymryd cyfrifoldeb yn weithgar a chânt gefnogaeth dda gan eu cyfoedion.

Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion yn llwyddiannus ac mae hyn wedi cael effaith gref ar bresenoldeb yr ysgol gyfan.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae ei weledigaeth ar gyfer yr ysgol wedi'i seilio ar ddatblygu cyrhaeddiad a lles disgyblion. Rhennir y weledigaeth yn effeithiol gyda'r holl ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rheini. Mae strwythur staffio effeithiol gan yr ysgol, gyda rolau clir sy'n adlewyrchu anghenion presennol yr ysgol. Mae holl aelodau'r staff yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu'r ysgol yn sefydliad dysgu.

Mae'r pennaeth yn dosbarthu arweinyddiaeth yn dda ac mae grwpio staff mewn timau yn arwain at ddiwylliant cadarnhaol o rannu arfer dda. Cymerir rôl arweiniol gan yr holl staff i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Maent yn cynnal cyfarfodydd ac is-bwyllgorau effeithiol bob tymor, a chânt eu cysylltu yn ôl eu cryfderau â meysydd cwricwlwm penodol. Er enghraifft, mae llywodraethwyr sy'n gyfrifol am lythrennedd neu les yn meithrin cysylltiadau defnyddiol gyda'r staff perthnasol yn yr ysgol i fonitro datblygu'u meysydd cyfrifoldeb. O ganlyniad, mae dealltwriaeth drylwyr gan y rhan fwyaf o lywodraethwyr o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Maent yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at y broses hunanarfarnu trwy graffu ar lyfrau, cymryd rhan mewn teithiau dysgu a thrwy gyfweliadau gydag arweinwyr cwricwlwm.

Caiff gweithgarwch hunanarfarnu ei gynllunio'n bwrpasol ar draws y flwyddyn academaidd ac mae uwch arweinwyr yn defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft o holiaduron disgyblion, staff a rhieni. Maent yn chwarae rhan flaenllaw yn yr hunanarfarnu. Er enghraifft, mae arweinwyr y cwricwlwm rhifedd a llythrennedd yn monitro ansawdd y ddarpariaeth drwy ystod effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol fel craffu ar gynlluniau a gwaith disgyblion.

Mae gan arweinwyr ddarlun cywir o'r ysgol, ac mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn effeithiol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn

cynnwys ystod gynhwysfawr o flaenoriaethau sy'n adlewyrchu anghenion presennol yr ysgol yn dda. Mae'r ddogfen yn nodi cerrig milltir ar gyfer adolygu, a chyfrifoldebau costio a monitro penodol, yn llwyddiannus.

Mae bron yr holl staff yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol sy'n cael effaith fuddiol ar arfer bresennol ac yn canolbwyntio ar wella darpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae bron yr holl staff yn elwa o gydweithio o fewn yr ysgol a gydag ysgolion eraill yn y clwstwr a thu hwnt, fel y prosiect disgyblion mwy abl a thalentog rhwng ysgolion. Ceir gweithdrefnau effeithiol yn yr ysgol ar gyfer rheoli perfformiad staff addysgu a staff cymorth. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ac yn mynd i'r afael yn llwyddiannus ag anghenion datblygiad personol y staff.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn effeithiol ac yn gofalu bod yr ysgol yn sicrhau gwerth am arian. Gwnânt benderfyniadau gofalus i sicrhau bod cynllunio ariannol yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni anghenion yr ysgol. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau a strategaethau presennol yr ysgol, er enghraifft i ddarparu ystod ehangach o offer TGCh. Mae'r ysgol wedi'i staffio'n ddigonol ac mae'r pennaeth yn defnyddio staff yn effeithiol i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu bodloni, er enghraifft y defnydd effeithiol o arbenigedd staff i ddatblygu meysydd cwricwlaidd fel addysg gorfforol. Mae cynllun gwario manwl gan yr ysgol ar gyfer y grant datblygu disgyblion ac mae'n amlinellu'n effeithiol ym mha feysydd y defnyddir y grant, er enghraifft i ddarparu ymyriadau pwrpasol ar gyfer grwpiau disgyblion penodol â medrau sylfaenol is. Caiff cynnydd disgyblion ei olrhain yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arfer gadarn, gyson |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor,
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2018